AcademiWales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Hyfforddi'r Hyfforddwr yn Gymraeg

**Academi Wales - Hyfforddi'r Hyfforddwr yn Gymraeg**

Mae Academi Wales yn falch iawn o gynnig y cyfle i hyfforddwyr Gwasanaeth Cyhoeddus hyfforddi mewn tair o raglenni Academi Wales drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y sesiynau hyn yn cynnwys darparu rhaglen hyfforddi, mynd drwy nodiadau'r hyfforddwr a'r cyfle i gael sesiwn holi ac ateb gyda'r hyfforddwr, i'ch galluogi i gyflwyno'r rhaglenni hyn yn eich sefydliadau eich hunain yn y Trydydd Sector a'r Gwasanaeth Cyhoeddus ledled Cymru.

Bydd y rhaglenni hyn yn cael eu cyflwyno yng nghanolfannau Urdd Gobaith Cymru ym Mae Caerdydd a Glan-llyn.

**Rheoli Newid yn Llwyddiannus** (5, 6 a 7 Hydref 2015—Caerdydd)

Rydym wedi cynllunio'r rhaglen hynod lwyddiannus hon i fynd i'r afael ag anghenion datblygu rheolwyr ac arweinwyr sy'n gyfrifol am sicrhau newid. Bydd y cyfranogwyr yn dysgu am y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen er mwyn rheoli newid yn llwyddiannus, mewn ffordd ymarferol. Rydym yn cyfuno hyn â safbwynt datblygu sefydliadol - gan ganolbwyntio ar bobl, strwythurau, diwylliannau a systemau. Nod y rhaglen yw meithrin arbenigedd mewn rheoli newid. Bydd hyn yn cefnogi modelau newydd o gyflwyno gwasanaeth wrth drawsnewid gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**Seicoleg Gadarnhaol Gymhwysol**
(11 Tachwedd 2015—Caerdydd)
(21 Ionawr 2016—Gogledd Cymru)

Mae'r syniad bod llwyddiant yn deillio o hapusrwydd yn un o egwyddorion craidd seicoleg gadarnhaol, ac mae'r sesiwn hon yn edrych ar sut gallwn ni greu gweithle hapusach a mwy llwyddiannus. Bydd y sesiwn yn datblygu syniadau ynghylch:

- Defnyddio egwyddorion seicoleg gadarnhaol yn y gwaith
- Gwella eich hapusrwydd, eich bodlonrwydd a'ch llwyddiant eich hun, ac eraill, yn y gwaith drwy weithgareddau ymarferol bob dydd
- Datblygu gwell cymhareb o sylwadau cadarnhaol yn y gwaith
- Cynllunio swyddi a thasgau i gynyddu profiad o'r Llif
- Creu ymddygiadau newydd a pharhaus ar eich cyfer chi ac eraill

**Adeiladu Perthnasoedd Effeithiol**
(11 Tachwedd 2015—Caerdydd)
(21 Ionawr 2016 — Gogledd Cymru)

Mae ein gallu i ffurfio a chynnal perthnasoedd effeithiol yn y gwaith ac yn y cartref yn rhan hanfodol o'n bywyd ac yn sail i lwyddiant. Mae pob un ohonom yn rhannu'r awydd sylfaenol i gael cysylltiad cadarnhaol ag eraill. Mae'r sesiwn hon yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Creu map o'ch perthnasoedd presennol
- Nodi pa rai o'r 5 gwerth allweddol sy'n bresennol ym mhob perthynas
- Edrych ar sut gellid gwella perthnasoedd
- Cydnabod y pedwar math o ryngweithio negyddol sy'n niweidio perthnasoedd
- Datblygu perthnasoedd mwy cadarnhaol drwy ddefnyddio technegau sydd wedi'u profi

Er mwyn cadw eich lle, anfonwch e-bost at academiwales@wales.gsi.gov.uk

Arweiniad gwych trwy ddysgu
Great leadership through learning